# CYFRIFOLDEBAU'R GWEINIDOGION

## Y PRIF WEINIDOG

## Y DIRPRWY WEINIDOG A'R PRIF CHWIP

- Y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn arfer ei swyddogaethau
- Datblygu a chydgysylltu polisïau
- Cysylltiadau rhynglywodraethol gan gynnwys Cyd-bwyllgor y Gweinidogion
- Cysylltiadau Rhyngwladol*
- Cymru yn Ewrop*
- Rhaglen Cymru ac Affrica*
- Swyddfeydd Rhyngwladol Llywodraeth Cymru*
- Meithrin cysylltiadau â'r Cymry ar Wasgar*
- Y Rhaglen Ddeddfwriaethol
- Cod y Gweinidogion
- Argyfyngau Sifil Posibl, gan gynnwys cadeirio Fforwm Cymru Gydnerth
- Llywodraeth agored gan gynnwys rhyddid gwybodaeth
- Goruchwylio perthynas Llywodraeth Cymru â Swyddfa Archwilio Cymru
- Materion Cyfansoddiadol
- Polisi Cyfiawnder a'r Comisiwn Cyfiawnder
- Tribiwnlysoedd
- Penodiadau Cyhoeddus
- Prif Chwip y Llywodraeth
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chysylltu â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol*
- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*
- Cydlynu materion yn ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ceiswyr lloches, ffoaduriaid a chydlyniant cymunedol*
- Caethwasiaeth, cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol*
- Y Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli*
- Cyfiawnder Ieuenctid*
- Diogelwch Cymunedol*
- Y berthynas â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu, yr Heddlu ac Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol eraill, argyfyngau sifil, parodrwydd am argyfwng a materion gwrthderfysgaeth
- Y berthynas â Llywodraeth y DU o ran Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf
- Gwasanaethau Cynghori ac Eiriolaeth*

**Bydd y Dirprwy Weinidog yn ateb cwestiynau a gyflwynir ar y materion hyn mewn sesiynau cwestiynau llafar penodol yn y cyfarfod llawn.*

**GWEINIDOG YR ECONOMI, THRAFNIDIAETH A GOGLEDD CYMRU**

**DIRPRWY WEINIDOG YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH**

- Gweinidog y Gogledd a Chadeirydd Pwyllgor Sefydlog y Cabinet ar y Gogledd
- Darparu cymorth a chyngor i helpu busnesau i sefydlu, tyfu, neu ddatblygu
- Cefnogaeth ar gyfer Mewnfuddsoddi
- Entrepreneuriaeth, menter a gwybodaeth fusnes
- Banc Datblygu Cymru
- Banc Cymunedol
- Paneli Cynghori Economaidd
- Cyngor Datblygu'r Economi a’r Grŵp Strategaeth Partneriaeth Gymdeithasol
- Hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer Busnes a Buddsoddi
- Bargeinion Dinesig Caerdydd, y Gogledd a Bae Abertawe
- Symleiddio ac integreiddio gwasanaethau sgiliau busnes a datblygu busnes
- Cydlynu mesurau trawsbynciol i hyrwyddo ffyniant a threchu tlodi
- Rheoli asedau eiddo dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â datblygu economaidd
- Trafnidiaeth Cymru
- Polisi trafnidiaeth
- Ffyrdd, gan gynnwys adeiladu, gwella a chynnal y traffyrdd a'r cefnffyrdd
- Gwasanaethau trên drwy gyfrwng masnachfraint Cymru a'r Gororau
- Polisi ar borthladdoedd
- Polisi gyrfaoedd a noddi Careers Choices Dewis Gyrfa
- Polisi ar Brentisiaethau, a chyflenwi hynny
- Polisi ar gyflogadwyedd pobl ifanc ac oedolion, gan gynnwys Twf Swyddi Cymru, Sgiliau Hanfodol ar gyfer Oedolion mewn Gwaith a'r Porth Sgiliau, a chyflenwi'r rhaglenni hynny
- Darparwyr dysgu seiliedig ar waith
- Sgiliau sector, gan gynnwys strategaethau, cronfeydd datblygu a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru
- Datblygu sgiliau'r gweithlu, gan gynnwys cyllid craidd Cronfa Ddysgu Undeb Cymru ar gyfer Cymru, gwasanaethau addysg a dysgu'r TUC
- Rhaglenni Ewropeaidd mewn perthynas â sgiliau a chyflogaeth, ac eithrio Cronfeydd Strwythurol yr UE
- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
- Cynnal fframwaith rheoleiddio modern sy'n cefnogi arferion busnes cyfrifol, twf a chystadleurwydd.
- Yr economi sylfaenol
- Swyddi Gwell yn Nes Adref
- Cyflog Byw
- Menter Gymdeithasol a'r economi gymdeithasol
- Economi gydweithredol
- Strategaeth a Pholisi Digidol Trawslywodraethol
- Seilwaith cysylltedd digidol, gan gynnwys Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, band eang cyflym a'r rhwydwaith symudol
- Manteision Seilwaith Digidol a Deallusrwydd Artiffisial i Fusnesau
- Teithio llesol
- Diogelwch ar y ffyrdd; llwybrau mwy diogel i'r ysgol; cludiant ar gyfer plant a phobl ifanc; rheoleiddio croesfannau i gerddwyr a pharcio ar y stryd

- Rhaglen a Thasglu'r Cymoedd
- Prosiect y Cymoedd Technoleg
- Cyfathrebu Strategol

**Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Y DIRPRWY WEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

- Iechyd y Cyhoedd: ymateb i Covid-19, sgrinio a brechu
- Goruchwylio darpariaeth a pherfformiad yn y GIG
- Cyflawni mesurau canlyniadau newydd
- Cynlluniau Cyflawni
- Craffu ar berfformiad y GIG yn unol â’u cynlluniau tair blynedd
- Goruchwylio'r gweithdrefnau uwchgyfeirio
- Y taliadau a godir am wasanaethau'r GIG
- Cael adroddiadau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ymateb iddynt a rhoi cyfarwyddyd
- Goruchwylio perthynas Llywodraeth Cymru â Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r GIG
- Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu meddygol, ac eithrio blynyddoedd 1-5 Addysg Prifysgol Meddygon
- Y maes digidol ac arloesedd mewn iechyd
- Hawliau plant a phobl ifanc, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Comisiynydd Plant Cymru
- Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Y fenter Dechrau'n Deg ar gyfer plant 0-3 oed
- Teuluoedd yn Gyntaf a pholisïau chwarae
- Gwasanaethau mabwysiadu a gofal maeth
- Diogelu
- Eiriolaeth i blant a phobl ifanc, gan gynnwys cwynion, sylwadau ac eiriolaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Rhannu gwybodaeth o dan Ddeddf Plant 2004
- Cafcass Cymru
- Polisi a goruchwylio holl weithgareddau’r Awdurdodau Lleol yng Nghymru o ran gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau statudol
- Goruchwylio Gofal Cymdeithasol Cymru
- Rheoleiddio lleoliadau preswyl a gofal cartref i oedolion, gofal maeth, darpariaeth gofal i blant dan 8 oed a gofal iechyd preifat
- Arolygu'r gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol a llunio adroddiadau am yr arolygiadau hynny (drwy Arolygiaeth Gofal Cymru), gan gynnwys adolygiadau ar y cyd o wasanaethau cymdeithasol ac ymateb i adroddiadau
- Y berthynas â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Y GWEINIDOG IECHYD MEDDWL, LLESIANT A’R GYMRAEG**

**Y DIRPRWY WEINIDOG DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH**

- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Dementia
- Awtistiaeth
- Effaith gamblo cymhellol ar iechyd
- Camddefnyddio sylweddau
- Iechyd y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr
- Gwasanaethau gwella iechyd a llesiant
- Gweithgareddau’r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, gan gynnwys diogelwch bwyd
- Bwyd sydd wedi'i addasu'n enetig (ac eithrio tyfu cnydau sydd wedi'u haddasu'n enetig)
- Y Strategaeth Ordewdra
- Profiad cleifion, cynnwys cleifion a llais y dinesydd
- Ymchwil a datblygu mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- Y Gymraeg, gan gynnwys goruchwylio a chydlynu polisi'r Gymraeg yn gyffredinol, swyddogaethau'r Gweinidog yn deillio o Fesur y Gymraeg 2011 a Chomisiynydd y Gymraeg
- Digwyddiadau Mawr
- Diwylliant, creadigrwydd a’r celfyddydau, gan gynnwys Cymru Greadigol
- Noddi Cyngor Celfyddydau Cymru, a'i gylch gwaith
- Polisi darlledu
- Twristiaeth i Gymru a thwristiaeth o fewn Cymru, gan gynnwys marchnata a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid drwy Croeso Cymru a rheoleiddio'r diwydiant twristiaeth
- Lletygarwch
- Amgylchedd hanesyddol Cymru
- Cadw
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Datblygu Archif Genedlaethol i Gymru
- Deddfwriaeth ar eiddo diwylliannol a chynlluniau rhyddhad trethi nad ydynt wedi’u datganoli
- Goruchwylio'r gwaith o ddosbarthu cyllid y Loteri yng Nghymru
- Chwaraeon Elît
- Chwaraeon cymunedol, gweithgareddau corfforol a gweithgareddau hamdden egnïol yng Nghymru, gan gynnwys noddi Cyngor Chwaraeon Cymru

**Y GWEINIDOG TAI A LLYWODRAETH LEOL**

**Y DIRPRWY WEINIDOG TAI A LLYWODRAETH LEOL**

- Gweithgareddau’r Awdurdodau Lleol a chymdeithasau tai mewn perthynas â thai, gan gynnwys rheoli tai a dyrannu tai cymdeithasol a fforddiadwy
- Cyflenwad ac ansawdd y farchnad, tai cymdeithasol a fforddiadwy
- Digartrefedd a chyngor ar dai
- Materion yn ymwneud â thai a ddarperir gan y sector rhentu preifat, gan gynnwys rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Cymorth ac addasiadau, gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl a Grantiau Addasu Ffisegol
- Rhoi cymorth yn ymwneud â thai (ond nid talu'r Budd-dal Tai)
- Rheoleiddio tenantiaethau masnachol sy'n cael eu gosod gan Awdurdodau Lleol
- Adfywio, gan gynnwys Ardaloedd Adfywio Strategol; adfywio etifeddol; a darparu safleoedd ac adeiladau, tir diffaith a chyflawni gwelliannau amgylcheddol mewn perthynas ag adfywio
- Diwygio Awdurdodau Lleol yn strwythurol, yn ddemocrataidd, yn ariannol ac yn gyfansoddiadol, gan gynnwys cydgysylltu modelau cyflawni rhanbarthol a’u cydlynu â Diwygio Llywodraeth Leol
- Y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol
- Materion cyfansoddiadol Llywodraeth Leol, trefniadau craffu, cabinetau, meiri etholedig, rôl cynghorwyr, eu hamrywiaeth, eu hymddygiad a'u tâl cydnabyddiaeth
- Trefniadau etholiadol Llywodraeth Leol, noddi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac amseriad etholiadau Awdurdodau Lleol
- Polisi cyllid Llywodraeth Leol a rhoi cyllid sydd heb ei neilltuo at ddibenion penodol i Awdurdodau Lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu drwy gyfrwng setliadau refeniw a setliadau cyfalaf Llywodraeth Leol
- Llywodraethu ariannol, ariannu a chyfrifyddu mewn perthynas â Llywodraeth Leol
- Materion yn ymwneud â gweithlu Llywodraeth Leol
- Y Bartneriaeth Gymdeithasol
- Gwaith Teg
- Cyngor Partneriaeth y Gweithlu
- Cydlynu mesurau i liniaru Tlodi Plant
- Goruchwylio’r gwaith o archwilio, arolygu a rheoleiddio mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys trefniadau sefydliadol ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cynhwysiant Digidol
- Prif gyfrifoldeb am fonitro materion sy'n ymwneud â Swyddfa'r Post a'r Post Brenhinol yng Nghymru
- Y Gwasanaethau Tân ac Achub, gan gynnwys gwaith diogelwch rhag tân yn y gymuned
- Arweiniad ar bolisi mewn perthynas â'r Lluoedd Arfog yng Nghymru a Chyn-filwyr
- Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol
- Goruchwylio a gweithredu'r Deddfau Cynllunio a phob agwedd ar bolisi cynllunio a phenderfynu ar geisiadau cynllunio a elwir i mewn ac apelau
- Lles cynllunio – y Cytundebau Adran 106 sydd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol: penderfynu ar geisiadau cynllunio ac ar gydsyniadau cysylltiedig
- Rheoliadau Adeiladu
- Cynllun Gofodol Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

- Diwygio’r gyfundrefn les
- Cynhwysiant ariannol, gan gynnwys undebau credyd

**Y GWEINIDOG CYLLID A'R TREFNYDD**

- Trysorlys Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Rhoi cyfarwyddyd strategol a rheoli adnoddau Llywodraeth Cymru
- Polisi trethi
- Polisi trethi lleol, gan gynnwys y Dreth Gyngor, ardrethi annomestig, gostyngiadau'r dreth gyngor a noddi Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio
- Monitro a rheoli'r gyllideb
- Buddsoddi Strategol
- Buddsoddi i Arbed
- Cyfrifyddu ac archwilio ariannol
- Monitro a rheoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn
- Gwerth am arian ac effeithiolrwydd
- Gweithredu a datblygu'r setliad cyllid datganoledig a'r Datganiad Polisi Cyllido
- Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru
- Caffael, cynnal a gwaredu eiddo ac asedau eraill
- Cyd-drefnu'r Ystadegau Gwladol a'r Cyfrifiad
- Rheoli busnes Llywodraeth Cymru yn Senedd yn unol â'r Rheolau Sefydlog
- Darparu'r Datganiad Busnes wythnosol
- Cynrychioli'r Llywodraeth ar y Pwyllgor Busnes
- Cysylltu â phleidiau eraill ynghylch Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth (heblaw am Filiau unigol sy'n parhau'n gyfrifoldeb i'r Gweinidog sy'n arwain arnynt)

**Y GWEINIDOG ADDYSG**

- Llywodraethu ysgolion, trefniadaeth ysgolion a derbyniadau i ysgolion
- Safonau ysgolion, gwelliannau a chyrhaeddiad disgyblion, gan gynnwys y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion
- Cylch gwaith Estyn
- Cyllido ysgolion
- Y cwricwlwm ac asesu hyd at a chan gynnwys Safon Uwch
- Addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Y Cyfnod Sylfaen
- Anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys anghenion disgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol, cymhleth a/neu benodol, disgyblion anabl, a disgyblion abl a thalentog
- Cymorth i bobl â Dyslecsia
- Diogelwch a chynhwysiant plant a phobl ifanc mewn ysgolion, gan gynnwys diogelwch ar y rhyngrwyd
- Cwynion ynghylch Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion
- Cyflwyno a rheoli'r rhaglen addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Noddi Cymwysterau Cymru
- Hyfforddi a datblygu'r gweithlu addysg, gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol athrawon
- Cyflogau ac Amodau Athrawon
- Addysg Bellach
- Cymorth i fyfyrwyr Addysg Bellach: y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru
- Polisi gwaith ieuenctid
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Y Fframwaith Credydau a Chymwysterau gan gynnwys cymwysterau sgiliau galwedigaethol, allweddol a hanfodol
- Cyrsiau dysgu ar gyfer carcharorion
- Polisi, strategaeth a chyllido addysg uwch
- Addysg Feddygol (ac eithrio hyfforddiant ôl-radd)
- Gwyddoniaeth: datblygu polisi gwyddoniaeth, gan gynnwys cyswllt o ddydd i ddydd â Phrif Gynghorydd Gwyddonol Cymru a'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol
- Gwyddorau Bywyd
- Ymchwil ac Arloesi, gan gynnwys ymchwil a datblygu, trosglwyddo gwybodaeth a masnacheiddio; sicrhau bod yr incwm mwyaf posibl yn deillio o waith ymchwil ac arloesi; a Chanolfannau Rhagoriaeth Ymchwil
- Denu myfyrwyr ymchwil lefel uwch i Gymru, eu datblygu a'u cadw

**GWEINIDOG YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG**

- Y Rhaglen Datblygu Gwledig
- Taliadau Uniongyrchol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin a chyfrifoldeb dros drawsgydymffurfio
- Datblygu’r sector amaethyddol, gan gynnwys cyflogau a sgiliau
- Datblygu’r sector bwyd-amaeth, cadwyni cyflenwi cysylltiedig, hyrwyddo a marchnata bwyd a diod o Gymru
- Iechyd a lles anifeiliaid
- Y Cynllun Dileu TB mewn Gwartheg
- Polisi ar dda byw, ffrwythloni artiffisial, dofednod, anifeiliaid anwes, ceffylau a gwenyn
- Polisi ar adnabod a symud da byw
- Polisi Cofrestru Daliadau
- Pysgodfeydd mewndirol, arfordirol a morol: rheoleiddio a gorfodi polisïau, gan gynnwys y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a rheoli harbyrau pysgota
- Cynllunio morol a chynllunio dŵr croyw, bioamrywiaeth, cadwraeth a thrwyddedu
- Y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth am bris cnydau
- Polisi ar y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, cyngor ar adfer safleoedd mwynau a Dosbarthiad Tir Amaethyddol a gweithredu Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth)
- Polisi ynni, gan gynnwys cynhyrchu ynni ar raddfa fach a chanolig, ynni domestig, effeithlonrwydd ynni a lleihau tlodi tanwydd
- Y newid yn yr hinsawdd, targedau lleihau allyriadau a chyllidebau carbon
- Rheoli Adnoddau Naturiol, gan gynnwys goruchwylio a gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru), a Cyfoeth Naturiol Cymru
- Mesurau trawsbynciol i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r newidiadau hynny, gan gynnwys dŵr; draenio tir; perygl llifogydd a pherygl arfordirol; a rheoli llygredd y môr a'r aer
- Dŵr
- Polisi a deddfwriaeth ar goedwigaeth, gan gynnwys ailstocio, iechyd coed a deunydd atgynhyrchu coedwigoedd
- Polisi ar fioamrywiaeth, gan gynnwys gweithredu'r Cynllun Adfer Natur
- Gwarchod a rheoli bywyd gwyllt yng Nghymru, gan gynnwys rheoli plâu, chwyn niweidiol a fermin a rheoleiddio iechyd planhigion, hadau a phlaladdwyr
- Cnydau a addaswyd yn enetig
- Rheoli adnoddau naturiol a gwastraff yn gynaliadwy yng Nghymru
- Arwain yn strategol ar randiroedd a seilwaith gwyrdd trefol
- Ansawdd yr Amgylchedd Lleol, gan gynnwys sbwriel, tipio anghyfreithlon, polisi sŵn a rheoleiddio sŵn
- Mynediad i gefn gwlad, yr arfordir a hawliau tramwy ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol

**Y CWNSLER CYFFREDINOL A'R GWEINIDOG PONTIO EWROPEAIDD**

- Rhoi cyngor cyfreithiol i'r Llywodraeth
- Goruchwylio gwaith yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol
- Goruchwylio erlyniadau ar ran Llywodraeth Cymru
- Goruchwylio'r gwaith o gynrychioli Llywodraeth Cymru yn y llysoedd
- Ystyried a oes angen i Filiau a basiwyd gan Senedd Cymru gael eu cyfeirio at y Goruchaf Lys er mwyn penderfynu a ydynt o fewn cymhwysedd y Senedd (gwneir hyn yn annibynnol ar y Llywodraeth)
- Cyflawni swyddogaethau eraill er budd y cyhoedd gan gynnwys, pan fo'r Cwnsler Cyffredinol yn ystyried bod hynny'n briodol, cychwyn, amddiffyn neu ymddangos mewn unrhyw achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â swyddogaethau Llywodraeth Cymru (gwneir hyn yn annibynnol ar y llywodraeth)
- Cydlynu â'r Sector Cyfreithiol
- Hygyrchedd cyfraith Cymru
- Ymadael â'r UE*
- Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE)*
- Goruchwylio deddfwriaeth yn ymwneud ag ymadael â'r UE*
- Cronfeydd Strwythurol yr UE ac eithrio'r PAC*
- Cronfa Ffyniant Gyffredin*
- Cadeirio Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd*
- Masnach Ryngwladol*

** Y Gweinidog Pontio Ewropeaidd*

*SYLWER: Gan nad yw'r Cwnsler Cyffredinol yn un o Weinidogion Cymru a benodir o dan a48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, nid oes modd i'r Cwnsler Cyffredinol arfer pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru. Mae swyddogaethau polisi Brexit yn cynnwys cynghori ar bolisi, sicrhau cydlynu effeithiol a dull gweithredu cyson o fewn Llywodraeth Cymru, eiriolaeth a chynrychiolaeth mewn negodiadau a thrafodaethau â Llywodraeth y DU, Gweinyddiaethau Datganoledig, rhanddeiliaid yn Ewrop ac yn ehangach, a goruchwylio WEFO (pan fo penderfyniadau yn cael eu cymryd gan staff Llywodraeth Cymru dan drefniadau asiantaeth sefydledig). Bydd unrhyw fater sydd angen penderfyniad ffurfiol gan Weinidogion Cymru dan bŵer statudol yn cael ei arfer gan y Prif Weinidog neu Weinidog portffolio penodol.*